

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Busnes

**Agwedd Llywodraeth Cymru tuag at
hybu masnach a mewnfuddsoddi**

Hydref 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.senedd.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8582
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Busnes

**Agwedd Llywodraeth Cymru tuag at
hybu masnach a mewnfuddsoddi**

Hydref 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Menter a Busnes

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, gan gwmpasu datblygu economaidd; trafndiaeth a seilwaith; cyflogaeth; addysg uwch a sgiliau; ac ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



William Graham (Cadeirydd)

Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Mick Antoniw

Llafur Cymru
Pontypridd



Jeff Cuthbert

Llafur Cymru
Caerffili



Byron Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Keith Davies

Llafur Cymru
Llanelli



Dafydd Elis-Thomas

Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd



Rhun ap Iorwerth

Plaid Cymru
Ynys Môn



Eluned Parrott

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



Gwenda Thomas

Llafur Cymru
Castell-nedd



Joyce Watson

Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Julie James

Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



Nick Ramsay

Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



David Rees

Llafur Cymru
Aberafan

Cynnwys

Crynodeb o'r Argymhellion	5
Rhagair	7
Cyflwyniad i'r ymchwiliad	8
Cyd-destun economaidd	9
Strwythurau cymorth Llywodraeth Cymru	10
Trefniadau ar ôl diddymu'r WDA	11
A oes angen sefydliad newydd?	13
A oes angen cynnwys y sector cyhoeddus fwy?.....	15
Cyberthynas Llywodraeth Cymru ag UKTI	17
Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.....	17
Y gyberthynas bresennol	18
Cymorth mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru	22
Perfformiad mewnfuddsoddi diweddar.....	22
Denu pencadlysoedd a chyfleusterau Ymchwil a Datblygu	24
Monitor Buddsoddi Ewropeaidd Ernst and Young	25
Dull gweithredu yn ôl sectorau blaenoriaeth	26
Cymorth allforio Llywodraeth Cymru	28
Rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol.....	29
Cenadaethau masnach ac ymweliadau dramor	29
Cenadaethau masnach a'r rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol - Safbwyntiau ymatebwyr	30
Perfformiad allforio diweddar	32
Rhwystrau i allforio	34
Marchnata a brandio	36
Strategaeth brand i Gymru.....	38
Just Ask Wales	39
Monitro perfformiad, cyflwyno adroddiadau a thryloywder	41
Strategaeth economaidd.....	42

Atodiad A - Cylch gorchwyl	44
Atodiad B - Tystion	45
Atodiad C - Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	46

Crynodeb o'r Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad annibynnol er mwyn asesu p'un a yw'r dull gweithredu mewnol presennol mewn perthynas â chefnogi masnach a mewnfuddsoddiad yn cynrychioli arfer da a gwerth am arian. (Tudalen 15)

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall gynnwys y sector preifat fwy fyth mewn perthynas â denu mewnfuddsoddiad. (Tudalen 16)

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer cynyddu cynrychiolaeth mewn digwyddiadau UKTI. Nid oes angen i'r gynrychiolaeth hon o reidrwydd fod ar lefel Gweinidogion na swyddogion, ond gallai gynnwys y panelau sector neu bartneriaid sector preifat yn fwy. (Tudalen 21)

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru lunio, a chyhoeddi'n flynyddol, gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol tryloyw, sy'n dangos perfformiad blynyddol economi Cymru o ran mewnfuddsoddi. Dylai'r dangosyddion gynnwys cyfanswm nifer y prosiectau newydd, y cyd-fentrau, y caffaeliadau, y mentrau a ehangwyd a'r mentrau a gadwyd; ac, ar gyfer pob un o'r mathau hyn o brosiectau, nifer y swyddi a grewyd, nifer y swyddi a ddiogelwyd a chyfanswm gwerth y buddsoddiad cyfalaf neu wariant perthnasol. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyfres gyfatebol o ffigurau ar gyfer prosiectau y cymerodd ran uniongyrchol ynddynt, sydd hefyd yn dangos lefel yr adnoddau ariannol a roddwyd gan Llywodraeth Cymru i sicrhau'r prosiectau. (Tudalen 24)

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i wella ansawdd a phrydlondeb yr ystadegau economaidd sydd ar gael i Gymru. Dylai, yn enwedig, weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, neu ei chomisiynu, i lunio ffigurau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth ar gyfer Cymru, ar yr un sail ac amllder â'r DU. Hefyd, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i lunio gwell ystadegau allforio ar gyfer Cymru sy'n adlewyrchu'r cyfraniad y mae busnesau Cymru yn ei wneud i allforion y DU ar ffurf allbynnau canolraddol. (Tudalen 34)

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi mesurau perfformiad allweddol blynyddol ar gyfer y cymorth a ddarperir ganddi i allforwyr, gan gynnwys manylion cenadaethau a ffeiriau masnach; nifer y cyfranogwyr busnes sy'n cymryd rhan ymhob digwyddiad; gwerth yr archebion a enillir; gwerth cyfleoedd posibl i gwmnïau fynd ar eu trywydd; a chyfanswm cost y rhaglen cenadaethau a ffeiriau. (Tudalen 35)

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei strategaeth brand ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi, a sut y mae'n gysylltiedig â'r brand ar gyfer yr economi, twristiaeth a'r wlad fel cyfanbeth. (Tudalen 39)

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa weithgareddau neu ddulliau gweithredu newydd y mae'n eu defnyddio i gyflawni'r addewidion a wnaed gan ymgyrch *Just Ask Wales* a darparu diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion yr ymgyrch. (Tudalen 40)

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi, fel rhan o strategaeth datblygu economaidd glir, ei dyheadau ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi; gan gynnwys y marchnadoedd a'r sectorau rhyngwladol sydd o bwysigrwydd strategol i Gymru, yn ei barn; sut y bydd yn helpu busnesau yng Nghymru i fanteisio ar y cyfleoedd yn y marchnadoedd hynny; a sut y bydd yn gweithio gyda buddsoddwyr presennol o dramor a darpar fuddsoddwyr o dramor i gynnal busnes yng Nghymru ac yn eu helpu i wneud hynny. (Tudalen 43)

Rhagair

1. Mae allforion a denu buddsoddiad o dramor yn hanfodol i dwf yr economi yng Nghymru.
2. Fel Pwyllgor, roeddem yn awyddus i ystyried pa mor effeithiol y bu dull gweithredu Llywodraeth Cymru - pa mor gryf yw "arlwy" mewnfuddsoddi Cymru, ac i ba raddau y mae gan Gymru "frand" cydlynus mewn perthynas â masnach a mewnfuddsoddi.
3. Cawsom dystiolaeth groes yn ystod yr ymchwiliad hwn. Roedd llawer o ymatebwyr yn uchel eu canmoliaeth i'r cymorth a gawsant gan Lywodraeth Cymru, nid felly ymatebwyr eraill.
4. Ers diddymu Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) yn 2006, bu newidiadau sylweddol i strwythurau cymorth y sector cyhoeddus yng Nghymru y bwriadwyd iddynt gefnogi a hybu allforion o Gymru a denu buddsoddiad uniongyrchol dramor i Gymru sydd wedi arwain at ddryswch a diffyg cydlyniad.
5. Rydym yn cydnabod strategaeth 2010 Llywodraeth Cymru *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* ond rydym yn pryderu nad yw tystion yn ymwybodol ohoni.
6. Credwn bod angen i Lywodraeth Cymru werthuso pa mor effeithiol yw ei strategaeth bresennol i adlewyrchu pryderon am ddryswch a diffyg cydlyniant.
7. Credwn hefyd y dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth datblygu economaidd glir sy'n egluro ei dyheadau mewn perthynas â masnach a mewnfuddsoddi. Dylai'r strategaeth honno gynnwys y marchnadoedd a'r sectorau rhyngwladol sydd o bwysigrwydd strategol i Gymru, ym marn Llywodraeth Cymru, ac amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu busnesau yng Nghymru i fanteisio ar y cyfleoedd yn y marchnadoedd hynny; a sut y mae'n gweithio gyda buddsoddwyr presennol o dramor a darpar fuddsoddwyr o dramor i gynnal busnes yng Nghymru ac yn eu helpu i wneud hynny.

Cyflwyniad i'r ymchwiliad

8. Gwnaethom ddechrau'r ymchwiliad drwy alw am dystiolaeth ysgrifenedig ym mis Tachwedd 2013. Atodir cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn Atodiad A. Cawsom 12 o gyflwyniadau ysgrifenedig, a restrir ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

9. Cynhaliwyd wyth sesiwn tystiolaeth lafar gennym gydag amrywiaeth o dystion, gan gynnwys y Prif Weinidog, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'i swyddogion, UK Trade and Investment a Scottish Development International. Gwnaethom gyfarfod hefyd â swyddogion Llywodraeth Cymru ym Mrwsel ac aethom ar ymweliad canfod ffeithiau i'r Sefydliad Gwyddorau Bywyd yn Abertawe i siarad â busnesau.

10. Lluniodd tîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol hefyd fideo, a oedd yn cynnwys cyfweiliadau gyda chymysgedd o fusnesau bach a chanolig ledled Cymru, yr oedd rhai ohonynt wedi cael cymorth i allforio eu cynhyrchion/gwasanaethau a rhai eraill nad oeddent wedi cael cymorth o'r fath. Gellir gweld y fideo yn: www.youtube.com/watch?v=VfjqDnDDyIE.

11. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd i'n hymchwiliad ac yn ffyddiog bod ein hadroddiad a'n hargymhellion wedi ystyried y dystiolaeth a gawsom.

Cyd-destun economaidd

12. Wrth i'r UE ddod yn fwy, mae'r gystadleuaeth a wynebir gan Gymru wedi cynyddu. O ganlyniad, mae gweithgareddau presennol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â masnach a mewnfuddsoddi yn gweithredu o fewn amgylchedd gwahanol na gweithgareddau'r WDA ugain mlynedd yn ôl. Yn arbennig, mae'r UE wedi dod yn sylweddol fwy ac mae nifer o wledydd cyflog isel, yn arbennig yn Nwyrain Ewrop, wedi ymuno â'r UE. Mae hyn wedi ei gwneud hi'n fwy heriol i Gymru gystadlu fel cyrchfan ar gyfer mewnfuddsoddi. Mae marchnadoedd newydd hefyd yn golygu bod angen ystyried amrywiaeth ehangach o wledydd, fel cyfleoedd i Gymru ac fel ffynhonnell o gystadleuaeth.

13. Felly, mae'r dasg sy'n wynebu Cymru wrth gefnogi masnach a sicrhau mewnfuddsoddiad yn fwy heriol byth.

14. Gan gydnabod y cyd-destun byd-eang y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu o'i fewn, nododd Ysgol Fusnes Caerdydd nad yw rôl mewnfuddsoddi (yn enwedig o dramor) o fewn 'pecyn cymorth' datblygu rhanbarthol y DU mor amlwg ag yr oedd yn ystod yr 1980au.¹ Aeth ymlaen i awgrymu bod lefel y cyllid a oedd ar gael i farchnata Cymru dramor, ac i ddarparu arian ar gyfer grantiau a mathau eraill o gymorth wedi gostwng, ar yr un pryd ag yr oedd cystadleuaeth i ddenu mewnfuddsoddiad wedi dwysau.

¹ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p1), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Ysgol Fusnes Caerdydd, 22 Ionawr 2014

Strwythurau cymorth Llywodraeth Cymru

15. Yn ystod y saith mlynedd diwethaf, gwnaed newidiadau sylweddol i strwythurau cymorth y sector cyhoeddus yng Nghymru y bwriedir iddynt gefnogi a hybu allforion o Gymru a chynigion i ddenu buddsoddiad uniongyrchol dramor i Gymru.

16. Ar ôl diddymu'r WDA yn 2006, sefydlodd Llywodraeth Cymru Busnes Rhyngwladol Cymru, a oedd yn gyfrifol am ddenu mewnfuddsoddiad newydd i Gymru (gan gynnwys ailfuddsoddiad), a helpu cwmnïau yng Nghymru i fasnachu o fewn marchnadoedd dramor.

17. Cyn hynny, Is-adran Ryngwladol y WDA oedd yn gyfrifol am reoli'r swyddogaeth fewnfuddsoddi a Masnach Cymru Rhyngwladol Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am reoli'r swyddogaeth fasnach.

18. Fel rhan o'r ad-drefnu adrannol yn dilyn cyhoeddi *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* ym mis Gorffennaf 2010, daeth rôl Busnes Rhyngwladol Cymru fel swyddogaeth ar wahân o fewn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd i ben. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig, yn rhannol o leiaf, ar ganfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd gan Glenn Massey (cyn-bartner yn PricewaterhouseCoopers) a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd yn 2009.

19. Ar ôl diddymu Busnes Rhyngwladol Cymru, daeth y timau sector integredig yn gyfrifol am sicrhau buddsoddiad newydd yn ogystal ag ôl-ofal wedi'i dargedu i brosiectau buddsoddi uniongyrchol dramor a oedd yn bodoli eisoes.

20. Ym mis Mawrth 2012, rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor Menter a Busnes fod tîm Prosiectau mawr newydd wedi'i sefydlu i gymryd yr awenau mewn perthynas â masnach a buddsoddi. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

“Flexible financial support, investment in infrastructure, and a focus on 21st Century communications will ensure a responsive and credible offering required by high-quality inward investors in a global economy.”²

² Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-10-12(p4), Sesiwn Craffu Gweinidogol yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, 14 Mawrth 2012

Trefniadau ar ôl diddymu'r WDA

21. Cyfeiriodd llawer o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad at ganlyniadau diddymu'r WDA.

22. Nododd tystiolaeth a ddarparwyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach bod:

“the role of the former Welsh Development Agency is still a contentious issue among many members in Wales. There can be little doubt that its successor organisations, including International Business Wales, failed to command the strength of brand that the WDA had achieved.”³

23. Nododd Ysgol Fusnes Caerdydd ganfyddiadau gwaith ymchwil a wnaed ganddi yn 2012, a gododd faterion mewn perthynas â'r canlynol:

- “dull o farchnata Cymru dramor ar hap, a chydlyniant gwael rhwng UKTI a Llywodraeth Cymru, nas hwyluswyd gan newidiadau parhaus o ran trefniadaeth yng Nghymru;
- diffyg cydlyniant o ran cydgysylltu gwasanaethau mewn modd gweithredol a strategol;
- anawsterau o ran brandio cyffredinol Cymru;
- y "dull gweithredu" ar sail sectorau "allweddol" a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru gan achosi dryswch ymhlith mewnfuddsoddwyr.”⁴

24. Dywedodd David Long a Geoff Harding, y cyflogwyd y ddau ohonynt yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru i weithio ar fasnach ryngwladol a mewnfuddsoddi, adeg creu Busnes Rhyngwladol Cymru (ar ôl diddymu'r WDA):

“support for international trade development was significantly downgraded. The Chief Executive and senior management team made it quite clear that the main focus was inward investment.”⁵

³ Y Pwyllgor Menter a Busnes, *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Ffederasiwn Busnesau Bach, Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Fasnach a Mewnfuddsoddi (1)

⁴ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p1), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Ysgol Fusnes Caerdydd, 22 Ionawr 2014

⁵ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p3), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan David Long a Geoff Harding, 22 Ionawr 2014

25. Aethant yn eu blaen i ddweud:

“This strategy seemed to have little impact on improving investment performance but certainly diluted the support afforded to Wales based business. In general, there was support for an integrated trade and investment body within the trade sections but was on the basis that such an approach would recognise the vital importance of trade as an equal partner not, as turned out, a “nice to do” add on. As trade seems to be back high on a political agenda, it is fair to say that the disbanding of IBW and subsequent failure of Flexible Support for Business to deliver even a modicum of strategic support can be seen as several ‘lost years’ for Welsh business.”⁶

26. Gwnaeth Robert Lock, sef Pennaeth Tîm Asia a'r Môr Tawel yn Masnach Cymru Rhyngwladol gynt ac wedyn yn Busnes Rhyngwladol Cymru, yr un pwynt. Awgrymodd Mr Lock o ganlyniad i ddiddymu Busnes Rhyngwladol Cymru yn 2010, gan ddarparu cymorth masnach drwy'r timau sector blaenoriaeth o fewn Llywodraeth Cymru yn unig wedi hynny, fod y cymorth wedi dod yn “disjointed and inconsistent”.⁷

27. Fodd bynnag, dywedodd, Alison Lea Wilson, Halen Môn, wrthym:

“We have received a huge amount of support. We’ve been in existence now for 17 years and we were always very keen to export and expand our markets out of Britain because we recognised that, with a very high-value niche business such as ours, we had to spread the risk, if you like and explore new markets.”⁸

28. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraeth Cymru:

“It is fruitless making a comparison with the former WDA, WTI and IBW. We are now operating in an economic environment that is very different and the industrial landscape of Wales is different too. Key is that dedicated trade and inward investment officials are specialists

⁶ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p3), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan David Long a Geoff Harding, 22 Ionawr 2014

⁷ Y Pwyllgor Menter a Busnes, *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Robert Lock, Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Fasnach a Mewnfuddsoddi (6)

⁸ Cofnod y Trafodion [para 7], 6 Mawrth 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

with a wealth of experience in these areas, experience that they have gained and developed in both the private and public sectors.”⁹

A oes angen sefydliad newydd?

29. Lluniwyd nifer o adroddiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn tynnu sylw at bwysigrwydd mabwysiadu'r dull gweithredu cywir o ran cefnogi allforion a mewnfuddsoddi o fewn economi Cymru.

30. Nododd cyhoeddiad diweddar gan y New Economics Foundation¹⁰ fod cydberthynas gadarn rhwng rhyngwladoli a gwelliannau o ran cynhyrchiant. O ganlyniad, mae allforwyr sy'n destun pwysau cystadleuaeth ryngwladol yn dueddol o fod yn fwy arloesol a chynhyrchiol fel cwmnïau. Mae tystiolaeth i Gymru wedi tueddu i gadarnhau'r gydberthynas hon, gyda gwaith ymchwil yn dangos cydberthynas gadarnhaol, gryf rhwng allforio a chynnydd mewn allbwn.

31. Awgrymodd y New Economics Foundation wrth i fuddsoddi uniongyrchol dramor byd-eang “shifting rapidly away from the developed world and into emerging markets, Wales should not attempt to compete on a cost basis in a shrinking FDI market. It needs a novel approach instead”.

32. Er nad oeddent o reidrwydd yn awgrymu y dylid dychwelyd at strwythur y WDA gynt, roedd nifer o ymatebwyr yn gadarn o'r farn fod angen sefydliad newydd er mwyn datblygu masnach a mewnfuddsoddi yng Nghymru.

33. Nododd Siambr Fasnach De Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig na welodd unrhyw dystiolaeth¹¹ o'r ffaith bod dull gweithredu mewnol presennol Llywodraeth Cymru o annog masnach a mewnfuddsoddi yn well na dulliau'r sefydliadau a fodolai yn flaenorol i gyflawni'r un swyddogaeth.

34. Awgrymodd yr Athro Max Munday, Cyfarwyddwr Uned Ymchwil i Economi Cymru, Prifysgol Caerdydd, o ganlyniad i'w ffordd o weithredu, fod y WDA wedi "insulated policy-makers and politicians from an element of risk" a bod "an element of entrepreneurial behaviour and risk-taking", sydd "a little bit more difficult in a more civil-service-oriented environment". Aeth ymlaen i ddweud, yn ei farn ef:

⁹ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-10-14(p5), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, 3 Ebrill 2014

¹⁰ [Towards a Welsh industrial strategy](#)

¹¹ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p2), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Siambr Fasnach De Cymru, 22 Ionawr 2014

“for marketing and making contacts, a more arm’s length relationship between the Government and a promotion, marketing and branding agency is more valuable.”¹²

35. Dywedodd Robert Lock wrthym hefyd:

"I do think a dedicated trade (and investment) body should be set up and that body could still be under the control of the Welsh Government. It would help if it had an identity which businesses in Wales and overseas could recognise as to what they do rather than the current Welsh Government Department of Economy, Science and Transport which covers all economic and transport activity."¹³

36. Ym mis Chwefror 2012, cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ei adroddiad yn dilyn ymchwiliad hirfaith i fewnfuddsoddi yng Nghymru. Ymhlith nifer o awgrymiadau wedi'u hanelu at Lywodraeth Cymru, nododd yr adroddiad:

“We repeat our call for the establishment of a dedicated trade promotion agency, either sitting within the Welsh Government or as a private sector vehicle working in collaboration with the Welsh Government to drive inward investment projects into Wales. Such a body should have a mix of skills with an emphasis on private sector experience.”¹⁴

37. Fodd bynnag, yn ei dystiolaeth, dadleuodd y Prif Weinidog nad oedd angen cymryd camau gweithredu o'r fath, gan nodi:

"I do not think that the case has been made for that at all. We see that we have been successful in attracting investment. We have been successful in terms of ensuring that the percentage of projects coming into the UK has increased in terms of those that come to Wales. So, I do not see that there is a case for re-establishing those bodies, along with the additional costs that that would incur."¹⁵

38. Aeth yn ei flaen i ddweud:

¹² Cofnod y Trafodion [para 24], 22 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

¹³ Y Pwyllgor Menter a Busnes, *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Robert Lock, Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Fasnach a Mewnfuddsoddi (6)

¹⁴ [Pwyllgor Materion Cymreig – Wythfed Adroddiad, Inward Investment in Wales](#), Chwefror 2012

¹⁵ Cofnod y Trafodion [para 353], 3 Ebrill 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

"What is important is that officials are able to use their considerable skills to attract investment into Wales, and that is what they are doing. We have a number of people who worked in those organisations who now work for the Welsh Government, and work effectively for the Welsh Government."

39. Ategodd Iestyn Davies, Ffederasiwn Busnesau Bach, y farn hon, gan ddweud:

"We do think that we should stick with the current provision, expand it, enhance it and ensure that it is appropriate and fit for purpose in the future, rather than trying to rewrite the whole thing from scratch."¹⁶

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad annibynnol er mwyn asesu p'un a yw'r dull gweithredu mewnol presennol mewn perthynas â chefnogi masnach a mewnfuddsoddiad yn cynrychioli arfer da a gwerth am arian.

A oes angen cynnwys y sector cyhoeddus fwy?

40. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd Siambr Fasnach De Cymru ei bod yn gweld:

"the reluctance of the Welsh Government Team to embrace private sector expertise in the international field both inside Wales and beyond as a clear step backwards."¹⁷

41. Dywedodd Graham Morgan, Cyfarwyddwr, Siambr Fasnach De Cymru, wrth y Pwyllgor:

"There is an underlying culture of trying to keep everything in-house, whereas in other parts of the UK we are seeing a far more hands-off and 'let the chamber get involved in different things' approach."¹⁸

42. Awgrymodd y Sefydliad Marchnata Siartredig fod angen trafod faint y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud, ac i ba raddau y dylai gyfeirio achosion i gyrff priodol eraill.¹⁹

¹⁶ Cofnod y Trafodion [para 34], 30 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

¹⁷ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p2), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Siambr Fasnach De Cymru, 22 Ionawr 2014

¹⁸ Cofnod y Trafodion [para 125], 22 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

43. Awgrymodd John Halle, Trax JH Ltd²⁰ fod angen:

“the support of local business people who have done a lot of exporting and form that into a coherent band of people that could be listened to, I think that’s something where very good advice could be given then to people who are just starting out on the export trail.”²¹

44. Cytunodd Iestyn Davies, FSB, gan dynnu sylw at fwlch hygredd, yn ei farn ef. Dywedodd wrthym:

“I am not sure that businesses think that advisers truly understand their needs and aspirations. Do they understand them? I think that they may be better than individuals sometimes understand or believe, but that credibility gap exists on a number of levels, not just on exports.”²²

45. Cawsom dystiolaeth o ddulliau gweithio cydgysylltiedig mewn rhannau eraill o'r DU, er enghraifft, Bryste, lle mae sefydliadau o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cydweithio at ddibenion masnach a mewnfuddsoddi.²³ Credwn y gallai Llywodraeth Cymru wella'r ffordd y mae'n gweithio gyda'r sector preifat.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall gynnwys y sector preifat fwy fyth mewn perthynas â denu mewnfuddsoddiad.

¹⁹ Y Pwyllgor Menter a Busnes, *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Sefydliad Marchnata Siartredig, Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Fasnach a Mewnfuddsoddi (8)

²⁰ Mae JH Ltd yn gwmni sy'n arbenigo mewn dylunio a gweithgynhyrchu pwysau yn unol â manylebau Offer Gwreiddiol

²¹ Cofnod y Trafodion [para 46], 6 Mawrth 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

²² Cofnod y Trafodion [para 10], 30 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

²³ Cofnod y Trafodion [para 164], 22 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

Cyberthynas Llywodraeth Cymru ag UKTI

46. Cyfeiriodd y dystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgol Fusnes Caerdydd at ddadansoddiad a gynhaliwyd ganddi yn 2012 a gododd faterion o ran "haphazard approach to marketing Wales abroad, and poor co-ordination between the UKTI and Welsh Government, not helped by continuing changes in organisation in Wales".²⁴ Nododd Ysgol Fusnes Caerdydd hefyd fod y Pwyllgor Materion Cymreig, yn ei adroddiad ym mis Chwefror 2012, hefyd yn feirniadol o ansawdd y rhwydwaith o gydberthnasau rhwng Llywodraeth Cymru ac UKTI.

47. Nododd David Long a Geoff Harding yn eu dystiolaeth ysgrifenedig fod y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac UKTI "certainly suffered upon the establishment of International Business Wales, with inward investment staff often looking at UKTI more as a potential competitor than partner".²⁵

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

48. Ym mis Mai 2013, llofnododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag UKTI. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn amlinellu'r egwyddorion arweiniol y bydd y ddau sefydliad yn gweithredu'n unol â hwy a datganiad o'r gwasanaethau a ddarperir gan UKTI a Llywodraeth Cymru wrth gydweithio a chydgyssylltu i hwyluso mewnfuddsoddiad i'r DU. Mae'n cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru dargedau penodol ar gyfer ardal Cymru ond na fydd y targedau hyn yn helpu i gyflawni'r agenda genedlaethol. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn strwythuro trefniant lle ceir tryloywder dwy ffordd mewn perthynas â chysylltiadau, dull cydweithredol o gytuno ar drefniadau gweithredu ar gyfer cysylltiadau a gaiff eu hysgogi gan bartneriaid lleol (sy'n cynnwys trafodaeth gychwynnol un-i-un, ystyried cryfder yr arlwy yn erbyn meincnod y DU, symudedd y prosiect, safbwyntiau'r cleient o ran lleoliad, cytuno ar y camau nesaf ond gydag UKTI yn meddu ar awdurdodaeth).

49. Mae buddiannau bwriadedig y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i Lywodraeth Cymru yn cynnwys mynediad i'r rhwydwaith cenedlaethol o gysylltiadau ac amrywiaeth o gymorth gan UKTI mewn perthynas â

²⁴ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p1), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Ysgol Fusnes Caerdydd, 22 Ionawr 2014

²⁵ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p3), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan David Long a Geoff Harding, 22 Ionawr 2014

chysylltiadau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys cymorth i ddatblygu arlwy lleol ac i ymgymryd ag ymarferion meincnodi; gwell effeithlonrwydd o ran targedu; a chymorth lefel uchel (gan gynnwys, lle y bo'n briodol, mewnbwn gweinidogol ar gyfer prosiectau a buddsoddwyr allweddol a'r gallu i gysylltu â rheoleiddwyr a gwneuthurwyr polisi).

50. Yn ôl y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mae hyn yn rhoi cyfle i'r DU gyflawni gwell canlyniadau llwyddiant cyffredinol o ran buddsoddi uniongyrchol dramor a gwella arlwy'r DU drwy ddefnyddio'r wybodaeth sy'n bodoli eisoes am asedau a galluoedd lleol, y gellir ei chyflwyno i gleientiaid, yn well. Y bwriad hefyd yw sicrhau gwell effeithlonrwydd drwy wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfunol megis gwybodaeth am sectorau a dealltwriaeth o'r farchnad.

51. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd yn egluro cyfrifoldebau'r ddau barti. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth mewnfuddsoddi ac ôl-ofal i Gymru. Cyflawnir hyn drwy farchnata busnesau Cymru ar sail fyd-eang, gan dargedu marchnadoedd a sectorau allweddol, a darparu pecyn cyngor a chymorth cynhwysfawr a chyfrinachol am ddim i gynghorwyr lleoliad a darpar fuddsoddwyr. At ddibenion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, mae gwasanaethau Llywodraeth Cymru ar gael i gwmnïau rhyngwladol sy'n awyddus i adleoli i Gymru neu ehangu o fewn Cymru. Hefyd, at ddibenion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, Llywodraeth Cymru yw'r unig sianel gweithgarwch buddsoddi uniongyrchol dramor i Gymru. Felly, mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi'n glir na fydd unrhyw weithgarwch rhwng UKTI a Llywodraeth Cymru yn cystadlu â'r holl weithgareddau lleol ac ardal ond yn hytrach yn ategu'r gweithgareddau hynny.

Y gydberthynas bresennol

52. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan UKTI fod UKTI a Thîm Masnach a Buddsoddi Llywodraeth Cymru wedi meithrin cydberthynas waith dda yn dilyn y newidiadau a wnaed i strwythur trefniadol Llywodraeth Cymru yn 2010. Bu Gweinidog Masnach a Diwydiant y DU, yr Arglwydd Green, yn ymweld yn rheolaidd â Chymru gan feithrin cydberthynas waith ardderchog²⁶ gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Roedd UKTI yn disgwyl i'r gydberthynas gryf honno barhau yn dilyn dyfodiad yr Arglwydd Livingston ym mis Rhagfyr, a gymerodd yr awenau gan yr Arglwydd Green.

²⁶ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-04-14(p2), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan UKTI, 5 Chwefror 2014

53. Nododd UKTI hefyd fod Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan lawn yn Fforwm Datblygu Busnes Rhyngwladol UKTI²⁷ sef y brif gyfundrefn lefel waith ffurfiol gyda'r holl Weinyddiaethau Datganoledig ar faterion yn ymwneud â masnach yn ogystal â mewnfuddsoddi. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd Prif Weithredwyr y Gweinyddiaethau Datganoledig a gynhelir ddwywaith y flwyddyn gan UKTI, sy'n cyfarfod i drafod materion strategol ar draws yr agenda masnach a buddsoddi.

54. Dramor, caiff Llywodraeth Cymru ei chynrychioli yn yr UD (ar gyd-leoliad gyda thimau UKTI yn Efrog Newydd, Washington, Chicago a San Fransisco); Tsieina (Beijing, Shanghai a Chongqing); India (Mumbai, Bangalore, ac ar gyd-leoliad gydag UKTI yn New Delhi); Japan (un swyddfa, Tokyo); a'r Emiraethau Arabaidd Unedig (ar gyd-leoliad gyda thîm UKTI yn Dubai).

55. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog fod gan Lywodraeth Cymru "generally a very good relationship with UKTI".²⁸

56. Roedd Gareth John, UKTI, o'r un farn, gan fynd yn ei flaen i awgrymu bod y gydberthynas hon wedi'i hwyluso'n rhannol gan raglen cymorth datblygu gallu UKTI, a oedd yn anelu at ddatblygu gweithrediad masnach a mewnfuddsoddi penodol i ategu'r ffocws ar sectorau allweddol ac i wella gwelededd Cymru o fewn marchnadoedd buddsoddi uniongyrchol dramor a chydag UKTI:

"I would say that the relationship between the Welsh Government and UKTI is excellent at the moment. It has been helped because we have been doing, as committee members might know, some fairly intensive capability development work over the last 18 months. Certainly, that has helped accelerate the process of integration, if I can put it that way."²⁹

57. Ymhelaethodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

"We brought in two officials from UKTI to work with our inward investment team—to sit with them, and, in fact, work across the whole of the Welsh Government, including with the overseas offices

²⁷ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-04-14(p2), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan UKTI, 5 Chwefror 2014

²⁸ Cofnod y Trafodion [para 329], 3 Ebrill 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

²⁹ Cofnod y Trafodion [para 156], 5 Chwefror 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

teams. As is good practice, we set down objectives for that, because it had a cost.

“The document that I think is being referred to is a UKTI self-assessment of how it performed, and overall the self-assessment says that it performed well. There was an increase in performance in terms of our ability to engage with UKTI and, hence, our ability to win projects to Wales. I think that the Welsh Government’s view is that we largely concur with that.”³⁰

58. Nid oedd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn derbyn barn David Williams, Cadeirydd Panel y Sector Ynni a'r Amgylchedd "Wales was a second-division player from a UKTI point of view".³¹ Yn wir, awgrymodd Guy Warrington, UKTI, nad oedd cwmnïau o Gymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn gyfranogwyr eilradd o bell ffordd a bod ganddynt, mewn gwirionedd, fantais gystadleuol o gymharu â chwmnïau o Loegr:

"The UK proposition offers what it offers to everyone, but on top of that there is a separate Welsh, Scottish and Northern Irish offer. So for example, Welsh companies coming out, when I was in Dubai, to trade in Dubai had everything that we offer as UKTI and then, on top of that, what the Welsh Government offers. So, they get a competitive advantage in the fact that there were two sets of offers available to them."³²

59. Gwrthododd y Gweinidog hefyd yr awgrym gan yr Athro Gareth Morgan, Cadeirydd Panel y Sector Gwyddorau Bywyd, y dylai Cymru gael ei chynrychioli ymhob un o ddigwyddiadau UKTI. Dywedodd yr Athro Morgan wrth y Pwyllgor:

“UKTI is very amenable, but very busy as well. At every UKTI event, we should have someone there, whether it is a panel member, a civil servant, or whoever. We have to be there. There is no substitute for that.”³³

³⁰ Cofnod y Trafodion [para 330], 3 Ebrill 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

³¹ Cofnod y Trafodion [para 95], 19 Chwefror 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

³² Cofnod y Trafodion [para 219], 5 Chwefror 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

³³ Cofnod y Trafodion [para 99], 19 Chwefror 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

60. Fodd bynnag, disgrifiodd y Gweinidog yr awgrym hwn fel awgrym "absolutely unrealistic"³⁴ o ystyried nifer y digwyddiadau a drefnwyd gan UKTI yn y DU ac ledled y byd:

“There are hundreds of events across the globe every year; even if we restricted ourselves to events in the UK, and the markets where we have a presence, there would still be too many for us to undertake.”³⁵

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer cynyddu cynrychiolaeth mewn digwyddiadau UKTI. Nid oes angen i'r gynrychiolaeth hon o reidrwydd fod ar lefel Gweinidogion na swyddogion, ond gallai gynnwys y panelau sector neu bartneriaid sector preifat yn fwy.

³⁴ Cofnod y Trafodion [para 334], 3 Ebrill 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

³⁵ Ibid

Cymorth mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru

61. Mae'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i ddenu darpar fewnfuddsoddwyr i Gymru yn cynnwys cymorth busnes cyffredinol, cymorth wrth sicrhau'r sail sgiliau gofynnol; cymhellion ariannol; cymorth hyfforddi; cyngor ar argaeledd eiddo masnachol; a darparu'r seilwaith digidol priodol.

62. Er bod anghytundeb o ran effeithiolrwydd a/neu ddymunoldeb ymyriadau mewnfuddsoddi, ceir hefyd sail tystiolaeth gadarn o ran yr effeithiau economaidd cadarnhaol sy'n gysylltiedig â mewnfuddsoddi.

Perfformiad mewnfuddsoddi diweddar

63. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru fod canlyniadau mewnfuddsoddi yn 2012/13 yn dangos gwelliant sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ran y prosiectau a'r swyddi.³⁶

64. Nododd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth:

“...in 2012-13, 67 new direct inward investment projects came to Wales from overseas. That figure is above any figure going back to 1992,”³⁷

65. Ers i'r Pwyllgor gael tystiolaeth, mae'r ffigurau diweddaraf wedi'u cyhoeddi sy'n dangos bod Cymru wedi denu 79 o brosiectau mewnfuddsoddi uniongyrchol o dramor yn 2013-14, gan greu a diogelu 10,441 o swyddi.³⁸

66. Fodd bynnag, dylid nodi gan nad yw'n ofynnol i fuddsoddwyr hysbysu UKTI o brosiectau buddsoddi newydd, mai dim ond y prosiectau hynny yr oedd UKTI a/neu sefydliad partner, megis Llywodraeth Cymru, yn rhan ohonynt, neu a ddaeth at sylw UKTI fel arall a gaiff eu cynnwys yn y ffigurau. Ni chaiff ffigurau ar wahân ar gyfer nifer y prosiectau gan Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth eu cyhoeddi fel mater o drefn.

³⁶ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-10-14(p5), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, 3 Ebrill 2014

³⁷ Cofnod y Trafodion [para 351], 3 Ebrill 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

³⁸ Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru: [Cymru - lle da i wneud busnes](#), Gorffennaf 2014

67. Dywedodd yr Athro Max Munday wrthym:

“To be blunt, the sort of figures that we use for the analyst to monitor foreign manufacturing and foreign direct investment are almost completely useless. For example, there was a headline last week where it was quoted that Wales has had a 191% increase in inward investment. Well, no, it has not. That assumption was based on a number of projects, or something like that, or a number of jobs; that is not the same as capital investment.”³⁹

68. Mewn ymateb, dywedodd Gareth John, UKTI:

“I suspect that he [Max Munday] was referring to the fact that UKTI counts projects rather than other economic indicators. Looking at what Max was saying, I think that some of the data that sit below the project are probably more accurate in terms of looking at economic impact in an area—they might well be the wage levels, the number of jobs created or other opportunities in supply chains. We do not capture that as UKTI. It is very much about the numbers of projects and the number of jobs. The economic impact of that is something that is very much within the Welsh Government’s purview, if you like, to collect.”⁴⁰

69. Pan ofynnwyd iddo pam roedd y data a gasglwyd gan Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth mor wahanol i'r data a ddeilliodd o ddadgyfuniad UKTI o berfformiad, dywedodd y Gweinidog:

“We know exactly what is going on with the UKTI, and we do dovetail with what the UKTI undertakes, but we do, of course, collect our own data. We have an ongoing discussion with UKTI over what would constitute foreign investment, do we not?”

There are certainly figures about what it is looking at now, and how it is going to present its figures, and we will not be presenting our figures in that way.”⁴¹

70. Cadarnhaodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru y byddai ffigurau UKTI eleni yn seiliedig ar berchnogaeth dramor o 10%, ond y byddai gweithgarwch a ffigurau Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn seiliedig ar berchenogaeth dramor o 50%.

³⁹ Cofnod y Trafodion [para 102], 22 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁴⁰ Cofnod y Trafodion [para 228], 5 Chwefror 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁴¹ Cofnod y Trafodion [para 428], 3 Ebrill 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

Dylai Llywodraeth Cymru lunio, a chyhoeddi'n flynyddol, gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol tryloyw, sy'n dangos perfformiad blynyddol economi Cymru o ran mewnfuddsoddi. Dylai'r dangosyddion gynnwys cyfanswm nifer y prosiectau newydd, y cyd-fentrau, y caffaeliadau, y mentrau a ehangwyd a'r mentrau a gadwyd; ac, ar gyfer pob un o'r mathau hyn o brosiectau, nifer y swyddi a grewyd, nifer y swyddi a ddiogelwyd a chyfanswm gwerth y buddsoddiad cyfalaf neu wariant perthnasol. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyfres gyfatebol o ffigurau ar gyfer prosiectau y cymerodd ran uniongyrchol ynddynt, sydd hefyd yn dangos lefel yr adnoddau ariannol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau'r prosiectau.

Denu pencadlysoedd a chyfleusterau Ymchwil a Datblygu

71. Nododd Ysgol Fusnes Caerdydd bwysigrwydd denu mewnfuddsoddwyr a ddaw â swyddogaethau pencadlys gyda hwy. Dywedodd yr Athro Max Munday wrthym:

"When you have the headquarters of businesses here, it can also increase the stability of the plant, or the factory, or it could be the call centre, or whatever it is."⁴²

72. Aeth yn ei flaen i ddweud:

"... we have low levels of research and development expenditure per capita, and business expenditure on research and development in Wales. If you get HQ-type operations, and you can promote a deeper functionality in your foreign manufacturing plants; you might get that research and development capability in your region."⁴³

73. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrthym fod y cysyniad o Gymru fel ardal ymchwil arloesol wedi cael blaenoriaeth uchel yn y rhaglen fewnfuddsoddi:

"We have been successful, particularly in recent years, at doing far more work in this area."⁴⁴

⁴² Cofnod y Trafodion [para 72], 22 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁴³ Cofnod y Trafodion [para 73], 22 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁴⁴ Cofnod y Trafodion [para 391], 3 Ebrill 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

Monitor Buddsoddi Ewropeaidd Ernst and Young

74. Yn seiliedig ar ffigurau o'i Fonitor Buddsoddi Ewropeaidd (EIM), mae Ernst and Young yn cynnal Arolygon Deniadoldeb i ystyried deniadoldeb rhanbarth neu wlad fel cyrchfan fuddsoddi drwy ddadansoddi realiti prosiectau buddsoddi uniongyrchol dramor maes glas ac ehangu a chanfyddiadau o brosiectau o'r fath, yn ogystal â'u heffaith ar economïau lleol. Yn ogystal â mewnfuddsoddwyr, mae'r arolwg hefyd yn seiliedig ar safbwyntiau swyddogion gweithredol, swyddogion y llywodraeth ac academyddion.

75. Mae adroddiad Arolwg Deniadoldeb y DU 2013⁴⁵ yn rhoi'r esboniad canlynol o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r ffigurau buddsoddi uniongyrchol dramor a nodir yn yr adroddiad, a'r prif wahaniaeth yw bod Ernst and Young yn olrhain prosiectau buddsoddi uniongyrchol dramor sydd wedi arwain at gyfleusterau newydd a chreu swyddi newydd, yn hytrach na'r ffigurau swyddi a gynhyrchir gan UKTI sy'n seiliedig ar gyhoeddiadau yn unig.

“The Ernst & Young European Investment Monitor, researched and powered by Oxford Intelligence, is a highly detailed source of information on cross-border investment projects and trends in Europe, dating back to 1997. The database focuses on investment announcements, the number of new jobs created and, where identifiable, the associated capital investment, thus providing exhaustive data on FDI in Europe. It allows users to monitor trends, movements in jobs and industries, and identify emerging sectors and cluster development.

“Projects are identified through the daily monitoring and research of more than 10,000 news sources. The research team aims to contact directly 70% of the companies undertaking the investment for direct validation purposes. This process of direct verification with the investing company ensures that real investment data is accurately reflected. The employment figures collected by the research team reflect the number of new jobs created at the start-up date of operations, as communicated by the companies during our follow-up interview.”⁴⁶

⁴⁵ [Adroddiad Arolwg Deniadoldeb y DU 2013](#)

⁴⁶ Y Pwyllgor Menter a Busnes, *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Ernst & Young, Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Fasnach a Mewnfuddsoddi (13)

76. Mae'r Monitor Buddsoddi Ewropeaidd yn cynnwys data hanesyddol i Gymru o 1997 i 2013, wedi'u dadansoddi yn ôl is-ranbarth daearyddol, sector a math o weithgarwch. Dengys y siart isod berfformiad Cymru o ran nifer y prosiectau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf o gymharu â'r Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU yn gyffredinol.

Blwyddyn	Cymru	Yr Alban	Gogledd Iwerddon	Cyfanswm y DU
2004	35	63	16	563
2005	13	33	18	559
2006	16	62	17	685
2007	22	69	26	713
2008	35	53	19	686
2009	20	51	25	678
2010	19	69	23	728
2011	9	51	17	679
2012	31	76	29	697
2013	24	82	36	799

77. Yn ôl Mark Gregory, Ernst & Young:

“Wales’ performance has been variable over this period but there has been no increase in the total number of projects over the 35 achieved in 2004. By contrast, the number of projects attracted by Scotland and Northern Ireland has grown over the same period as has the total number of UK projects.”⁴⁷

Dull gweithredu yn ôl sectorau blaenoriaeth

78. Nododd y cyflwyniad gan Ysgol Fusnes Caerdydd fod tystiolaeth y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn awgrymu na roddwyd ystyriaeth ddigonol i'r penderfyniad i ad-drefnu a blaenoriaethu ar sail cyfres o sectorau allweddol, ac nad oedd llawer o dystiolaeth economaidd ar gael i ddangos pam bod y sectorau a ddewiswyd yn "allweddol" i ddyfodol yr economi yng Nghymru.

79. Yn yr un modd, awgrymodd gwaith ymchwil Ysgol Fusnes Caerdydd ei hun o 2012 fod y "dull gweithredu" ar sail sectorau "allweddol" a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn achosi dryswch ymhlith mewnfuddsoddwyr.

⁴⁷ Y Pwyllgor Menter a Busnes, *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Ernst & Young, Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Fasnach a Mewnfuddsoddi (13)

80. Dywedodd Joshua Miles, FSB, wrthym:

"...if you are going to take a sectoral approach, you have to be pretty ruthless in how effective you are and how you target those sectors. From our point of view, about 66% of businesses fall into a sector, so it is not massively targeted. It is not clear what the objectives are for the sectors; it is not clear what the key performance indicators are and, as a result of that, it is quite difficult to ascertain what those sector panels do and how they are going to support our members on the ground."⁴⁸

⁴⁸ Cofnod y Trafodion [para 44], 30 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

Cymorth allforio Llywodraeth Cymru

81. Yn ôl y dystiolaeth ysgrifenedig gan UKTI, caiff cymorth allforio yng Nghymru ei ddarparu drwy bartneriaeth rhwng UKTI a Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, gall busnesau yng Nghymru fanteisio ar arbenigedd sylweddol a chyrhaeddiad byd-eang UKTI a ffocws penodol tîm masnach a buddsoddi Llywodraeth Cymru ar Gymru.

82. Mae gwasanaethau masnach UKTI sydd ar gael i gwmnïau yng Nghymru yn cynnwys: Gwasanaeth Cyflwyno i Farchnadoedd Dramor (OMIS), Rhaglen TradeShow Access (TAP), Cynllun Ymchwil Marchnata Allforio a'r Adolygiad Cysylltiadau Allforio.

83. Mae rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth am ddim (gan gynnwys sesiynau unigol a gweithdai) er mwyn helpu busnesau i ymdopi â chamau cyntaf masnachu dramor. Mae'r rhaglen wedi'i theilwra i allforwyr sy'n allforio am y tro cyntaf, ond gall masnachwyr profiadol sy'n ystyried marchnadoedd newydd hefyd fanteisio arni.

84. Fodd bynnag, nododd nifer o'r busnesau bach a chanolig y cyfwelodd Tîm Allgymorth y Cynulliad â hwy ddiffyg cymorth gan Lywodraeth Cymru:

Buster Grant, Brecon Brewing: “I’ve been exporting now for eight or nine years, but that’s all been done off my own contacts, on my own basis. We’ve never received any advice or direct assistance from the Welsh Government in either form.”⁴⁹

Tim Carr, Bon Bon Buddies: “We’re the market leader within our sector in the UK, in France, in Poland. We’ve achieved all of that on our own, really, and we would greatly value more assistance and support.”⁵⁰

Adrian Gunn, Howies Design Ltd: “We’ve not had any support from the Welsh Government to help us market our business abroad. We are a small e-commerce business at the moment that sells in probably more than 25, 30 counties worldwide.”⁵¹

⁴⁹ Cofnod y Trafodion [para 11], 6 Mawrth 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁵⁰ Cofnod y Trafodion [para 12], 6 Mawrth 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁵¹ Cofnod y Trafodion [para 13], 6 Mawrth 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

Rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol

85. Mae rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn rhaglen sydd wedi'i hariannu i helpu busnesau i ymgysylltu â'u marchnad darged. Am gyfraniad o 25 y cant, bydd cynghorwyr Llywodraeth Cymru yn y farchnad yn ystyried amodau marchnadoedd lleol, yn ymchwilio i'r cyfleoedd, wedyn yn ceisio rhoi hwb i'r broses werthu drwy ffonio darpar gwsmeriaid a threfnu cyfarfodydd.

86. Prin iawn yw'r allforwyr sy'n ymdopi ar eu pen eu hunain gan fod y rhan fwyaf yn canfod bod angen presenoldeb lleol arnynt i ymdrin â gwerthiannau a rhoi cymorth. Gallai hynny fod ar ffurf asiantau sy'n gweithio am gomisiwn; dosbarthwyr sy'n prynu'r nwyddau ac yn eu gwerthu'n lleol; partneriaid mewn cyd-fenter; neu masnachfreinwyr sy'n talu trwydded am frand a model busnes.

87. Nod rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol Llywodraeth Cymru yw helpu i ddod o hyd i'r partneriaid priodol gan ddibynnu ar ba bynnag lwybr y bydd busnes yn dewis ei ddilyn.

Cenadaethau masnach ac ymweliadau dramor

88. Mae cymorth allforio Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys y rhaglen o genadaethau masnach a ariennir lle y gall busnesau gymryd rhan weithredol, a'r Cynllun Cymorth Ymweliadau Datblygu Busnes Dramor a all helpu gyda chostau mynd i ffeiriau masnach a chyfarfod â darpar gwsmeriaid newydd ac archebu lle mewn sioeau masnach eraill ledled y byd.

89. Yn 2012-13, cefnogodd Llywodraeth Cymru 23 o genadaethau masnach ac arddangosfeydd a chymerodd tua 100 o gwmnïau ran yn y digwyddiadau hyn. Fodd bynnag, prin iawn yw'r wybodaeth sydd ar gael am effaith cymryd rhan mewn cenadaethau masnach, o ran y swm o fusnes gwirioneddol a enillir.

90. Dywedodd David Long wrthym:

“One of the major step-changes when the Welsh Government - or the Welsh Assembly Government, as it was then - created WalesTrade International, was that, whereas previously we published figures about the number of trade missions that we had taken overseas and the number of events that we had held in Wales, we changed that around completely so that our key drivers and key targets were the amount of business physically won by Welsh companies, the amount

that they had in the pipeline that we could continue to help them with, and how much of that we could help them to convert into additional orders, and how many new exporters were created, that is, companies that we would help take from being a non-exporting company into being a company getting its first order and, hopefully, that we would be able to maintain as an exporter. So, we turned it around and looked at business success as opposed to the numbers that went. The only information that I could find online is the annual business statement that the department issues, and all that told me is that it took x number of trade missions overseas and has had discussions with UKTI. However, there was nothing there to tell me that there had been a business success."⁵²

91. Cytunodd Graham Morgan, gan ddweud:

"...we do not have access to it, is how many businesses have been going on trade missions that were announced in 2012-13 and what has been gained as a result of it."⁵³

Cenadaethau masnach a'r rhaglen Cyfleodd Masnach Ryngwladol - Safbwyntiau ymatebwyr

92. Awgrymodd Siambr Fasnach De Cymru nad oedd cynnal cenadaethau masnach gyda chyfnodau paratoi byr a nifer fach o gyfranogwyr yn "...good value for money and a more structured approach is required, with consistent alignment with key destinations and a planned 5 year program".⁵⁴ Dywedodd hefyd ei bod yn bwysig cysylltu cenadaethau masnach â'r hyn y mae'r ystadegau yn nodi, yn hytrach na meddwl "we haven't been to the Philippines for five years, let's go to the Philippines. That may well be the right decision politically, but from a private sector, planned, structured approach it may not be".⁵⁵

93. Daeth David Long a Geoff Harding i'r casgliad o'u hymchwiliadau eu hunain mai prin oedd y cymorth a oedd ar gael yn y farchnad i gyfranogwyr a oedd yn mynd i genadaethau masnach. Cafwyd ganddynt hefyd, o ran 2013-14, hyd yn hyn y cynhaliwyd cyfanswm o 66 o brosiectau Cyfleodd Masnach Ryngwladol. Gwnaethant awgrymu "bearing in mind that there are currently 9

⁵² Cofnod y Trafodion [para 224], 22 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁵³ Cofnod y Trafodion [para 159], 22 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁵⁴ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p2), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Siambr Fasnach De Cymru, 22 Ionawr 2014

⁵⁵ Cofnod y Trafodion [para 155], 22 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

key sectors subject to intensive departmental support, the pro rata take-up of the programme is very low".⁵⁶

94. Fodd bynnag, gwnaethant gydnabod y bu gan dimau Llywodraeth Cymru a fu'n rhan o'r gwaith "few tools to work with in terms of marketing the initiative and rebuilding faith in the Government offering".⁵⁷

95. Nodwyd nifer o bryderon eraill ganddynt hefyd, yn arbennig yr elw isel ar fuddsoddiad, yn ôl pob tebyg, a gyflawnwyd gan y cenadaethau masnach yn 2011-12; y nifer isel o gyfranogwyr, yn ôl pob tebyg, ar y cenadaethau masnach hyn; a'r oedi posibl wrth ddarparu cymorth.

96. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth groes o ran gwerth cymryd rhan mewn cenadaethau masnach. Dywedodd Alison Lea Wilson, Halen Môn wrthym:

"We've had help exhibiting overseas. We've had help with market research and trade missions, and we continue to take every advantage of those. We've had a very positive experience."⁵⁸

97. I'r gwrthwyneb, dywedodd John Halle, Trax JH Ltd:

"Trade missions themselves can be rather limiting because I think they're rather orchestrated with big buyers seeing big companies and big people and institutions and government bodies, and I'm not quite sure really how much impact that can actually have on a real-life business that wants to export."⁵⁹

98. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog:

"Of the trade missions that I have gone on that have included some small businesses, they have really enjoyed them and have found them successful. They knew where they were going, they know where they wanted to go, and some of them have been asking us whether they can go on more of them because we are generous in terms of the support that we give to them and they are anxious to be engaged.

⁵⁶ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p3), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan David Long a Geoff Harding, 22 Ionawr 2014

⁵⁷ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p3), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan David Long a Geoff Harding, 22 Ionawr 2014

⁵⁸ Cofnod y Trafodion [para 7], 6 Mawrth 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁵⁹ Cofnod y Trafodion [para 8], 6 Mawrth 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

So, I find this quite difficult from my experience of talking to businesses."⁶⁰

99. Tynnodd Andrew Williams, Weldwide Solutions Ltd, sylw at yr angen am gymorth cofleidiol:

"I think someone, in the main, has to have this really holistic approach—'We support you to go out there, we support you to attend trade fairs, we support you to do all of those things that you need to get the business; then, when it comes back, this is what we can do for you'. It is no good then just saying, 'Oh, well, I'm sure there is a bank over there that can help you', or 'I'm sure there's someone else over there that can help you', because they don't and it would be nice to think that there was some way that the Welsh Assembly Government could somehow improve that little end-piece. It is the end-piece that means that you then really create a far more rounded approach to the whole thing. I think that you've got two pieces of the jigsaw; you need the third one."⁶¹

100. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog fod y dull cyfannol hwn eisoes ar waith a bod busnesau yn cael llawer o gymorth gan ei hadran pan fyddent yn dychwelyd o genadaethau masnach:

"The department always discusses with them what has happened in terms of the trade mission if they have made contact with a company, ... the department then encourages them, if we have contacts, or if we have an office in the country that the trade mission went to, it will keep in contact. So, we have a holistic approach in terms of dealing with them when they come back."⁶²

Perfformiad allforio diweddar

101. Dengys ystadegau [diweddaraf](#) Llywodraeth Cymru fod allforion o Gymru ar gyfer y pedwar chwarter hyd at chwarter 2 yn 2014, gan gynnwys y chwarter hwnnw, wedi cynyddu 5.4 y cant o gymharu â'r pedwar chwarter blaenorol (gostyngodd cyfanswm gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr 2.7 y cant).

102. Bu cynnydd mewn pump o ddeuddeg gwlad y DU a rhanbarthau Lloegr, ac roedd y cynnydd mwyaf yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr (cynnydd o

⁶⁰ Cofnod y Trafodion [para 436], 3 Ebrill 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁶¹ Cofnod y Trafodion [para 54], 6 Mawrth 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁶² Cofnod y Trafodion [para 441], 3 Ebrill 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

16.1 y cant). Cymru oedd yr ail uchaf (cynnydd o 5.4 y cant). Yn y saith rhanbarth arall, bu gostyngiadau, ac roedd y mwyaf ohonynt yn Llundain (gostyngiad o 14.5 y cant) ac yna Gogledd-orllewin Lloegr (gostyngiad o 11.2 y cant). Rhwng 1999 a'r pedwar chwarter hyd at chwarter 2 yn 2014, gan gynnwys y chwarter hwnnw, bu cynnydd o 123.6 y cant mewn allforion o Gymru, y cynnydd uchaf o blith gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 74.4 y cant ar gyfer cyfanswm gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr.

103. Awgrymwyd i'r Pwyllgor fod y cwmnïau mawr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru megis Tata Steel, Airbus, Texaco (a chwmnïau petrogemegol eraill) a Ford yn dylanwadu ar yr ystadegau allforio i Gymru. Roedd yr amrywiol dimau cymorth masnach ryngwladol neu allforio a fu'n rhan o'r Llywodraeth yng Nghymru dros y blynyddoedd oll, yn ddieithriad, wedi'u hanelu at fusnesau bach a chanolig a oedd naill ai'n allforwyr newydd neu eisoes yn allforio ond yn ystyried allforio i farchnadoedd newydd. Awgrymwyd nad oedd unrhyw rai o'r busnesau a gafodd gymorth yn ddigon mawr i ddylanwadu ar yr ystadegau allforio ar eu pen eu hunain na chyda'i gilydd. Fodd bynnag, helpodd y cymorth a ddarparwyd i greu swyddi a/neu ddiogelu swyddi.

104. Dywedodd yr athro Max Munday ei bod yn holl bwysig cynnal lefelau allforio o Gymru, gan eu bod yn arwydd o gystadleurwydd rhanbarthol Cymru. Aeth yn ei flaen i ddweud:

"Welsh exports have been maintained at a fairly high level, but we cannot get past the conclusion that one or two high-profile exits could now impact those export figures very heavily."⁶³

105. Mae'n anodd i ni gyflwyno sylwadau ar berfformiad Llywodraeth Cymru wrth roi cymorth uniongyrchol i fusnesau yng Nghymru allforio, o ystyried y diffyg gwybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar yr allbynnau a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'i gweithgareddau allforio.

106. Dywedodd Joshua Miles wrthym:

"It is worth recognising as well that both the UK Government and the Scottish Government, for example, have targets in relation to exports.

⁶³ Cofnod y Trafodion [para 14], 22 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

So, from our position, we do not know what the policy is at the moment."⁶⁴

107. Cytunodd y Gweinidog ei bod hi hefyd yn pryderu "in the key performance measures, the value of doing export business and the fact that the sectors underlying it, are not reflected".⁶⁵ Nododd un o swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd mai allbynnau canolradd oedd llawer o'r allbynnau o gwmnïau yng Nghymru, a oedd yn mynd i mewn i gynnyrch a wnaed rywle arall yng ngweddill y DU, ac yn cael ei allforio wedyn. Yn aml, nid oedd y ffigurau hyn yn cael eu cynnwys mewn ffigurau allforio.

Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i wella ansawdd a phrydlondeb yr ystadegau economaidd sydd ar gael i Gymru. Dylai, yn enwedig, weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, neu ei chomisiynu, i lunio ffigurau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth ar gyfer Cymru, ar yr un sail ac amllder â'r DU. Hefyd, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i lunio gwell ystadegau allforio ar gyfer Cymru sy'n adlewyrchu'r cyfraniad y mae busnesau Cymru yn ei wneud i allforion y DU ar ffurf allbynnau canolraddol.

Rhwystrau i allforio

108. O ran allforio a'r cymorth y byddai busnesau bach a chanolig yn debygol o'i gael, nododd nifer o'r busnesau y cyfwelodd y Tîm Allgymorth â hwy fod mynediad amserol i gyllid a chyfalaf yn rhwystr sylweddol i ehangu. Ymhlith y themâu cyffredin eraill roedd yr angen i ymdopi â biwrocratiaeth a phwysigrwydd sicrhau bod pobl ar lawr gwlad i ddarparu gwybodaeth fanwl am farchnadoedd lleol.

109. Awgrymodd y Ffederasiwn Busnesau Bach fod angen ystyried y diffiniad o allforio hefyd. Dywedodd Joshua Miles wrthym:

"For some businesses, selling things in the next valley over would be a step towards that kind of exporting mentality. It could be selling outside of Wales, sometimes. It is how we get those people to think about selling their products to new markets, really."⁶⁶

⁶⁴ Cofnod y Trafodion [para 19], 30 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁶⁵ Cofnod y Trafodion [para 422], 3 Ebrill 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁶⁶ Cofnod y Trafodion [para 25], 30 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi mesurau perfformiad allweddol blynyddol ar gyfer y cymorth a ddarperir ganddi i allforwyr, gan gynnwys manylion cenadaethau a ffeiriau masnach; nifer y cyfranogwyr busnes sy'n cymryd rhan ymhob digwyddiad; gwerth yr archebion a enillir; gwerth cyfleoedd posibl i gwmnïau fynd ar eu trywydd; a chyfanswm cost y rhaglen cenadaethau a ffeiriau.

Marchnata a brandio

110. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM) bwysigrwydd y cysyniad o farchnata gan ddatgan, "both business history and current practice reminds us that without proper marketing, companies cannot get close to customers and satisfy their needs. And if they don't, a competitor surely will".⁶⁷

111. Ym mis Chwefror 2012, cyhoeddodd Ysgol Fusnes Caerdydd adroddiad o'r enw 'Selling Wales: the role of agencies in attracting inward investment'.⁶⁸ Un o'r materion pwysicaf a nodwyd yn yr adroddiad oedd canfyddiad y byd ehangach o ddelwedd brand cystadleuol Cymru. Argymhellodd yr adroddiad y dylid mabwysiadu un brand cydlynus. Awgrymodd yr adroddiad fod dulliau gweithredu blaenorol gan Gymru, yn enwedig ar ddiwedd y 1990au, wedi'u cydgysylltu'n well a'u bod yn fwy cyson o ran eu negeseuon brand. Arweiniodd hyn at "frand" cydnabyddedig a dealladwy i Gymru. Awgrymodd yr adroddiad hefyd bod brand y WDA yn dal yn adnabyddus flynyddoedd ar ôl diddymu'r sefydliad.

112. Adlewyrchir canfyddiadau adroddiad Ysgol Fusnes Caerdydd yn y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr at gryfder enw brand y WDA ac ymwybyddiaeth ohono.

113. Awgrymodd Robert Lock ei bod yn "takes time to create a brand and to be fair the Welsh Development Agency had been successful creating a known brand overseas and in Wales".⁶⁹ Roedd Mr Lock o'r farn na lwyddodd y WDA i "...move with the times and lost their position as a leading UK Development Agency and the management should have gone rather than the organisation".⁷⁰

114. Ym mis Mawrth 2012, diddymwyd yr Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol (RDA) yn Lloegr ac fe'u disodlwyd gan Bartneriaethau Menter Lleol. Mae rôl y sefydliadau newydd hyn yn wahanol iawn i rôl yr Awdurdodau Datblygu Rhanbarthol, ac nid yw'n cynnwys denu mewnfuddsoddiad yn uniongyrchol. Awgrymodd Ysgol Fusnes Caerdydd yn

⁶⁷ Y Pwyllgor Menter a Busnes, *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Sefydliad Marchnata Siartredig, Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Fasnach a Mewnfuddsoddi (8)

⁶⁸ [Selling Wales: the role of agencies in attracting inward investment](#)

⁶⁹ Y Pwyllgor Menter a Busnes, *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Robert Lock, Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Fasnach a Mewnfuddsoddi (6)

⁷⁰ Ibid

ei thystiolaeth ysgrifenedig "given the time it would take to build a successful inward investment attraction brand, there is a real opportunity for Wales to intensify its international marketing".⁷¹

115. Nododd hefyd fod marchnata yn fater a ystyriwyd gan ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig i fewnfuddsoddi. Nododd tystion i'r ymchwiliad hwnnw ddiffyg ffocws ar farchnata Cymru dramor a bod y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn destun sawl ymdrech i ad-drefnu wedi golygu na chafodd y dasg o werthu Cymru i'r byd sylw haeddiannol.

116. Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn 2012 "the Welsh Government must urgently consider how existing recognition of the WDA brand can be used to improve and increase Wales's global identity".⁷²

117. Roedd David Long a Geoff Harding yn gadarn iawn o'r farn "there is no longer a coherent Welsh brand for either trade or investment".⁷³ Gwnaethant awgrymu fod y WDA yn "strong, positive brand which was well-respected in key international markets and this was a contributing factor in Wales success in encouraging inward investment."⁷⁴

118. Fodd bynnag, dywedodd Roger Pride, Rheolwr Gyfarwyddwr, Heavenly, os oedd y WDA yn frand llwyddiannus, fod hynny'n deillio o'r ffaith ei fod wedi cyflawni ar ran mewnfuddsoddwyr yng Nghymru, nid am mai Awdurdod Datblygu Cymru oedd ei enw:

"I think that, a lot of the time, when we hear calls for the Welsh Development Agency brand to be resurrected, what people are asking for is an effective delivery organisation to be resurrected."⁷⁵

119. Aeth yn ei flaen i ddweud:

"A brand is not what it says and is not even what it says it does: it is about what it does. Successful brands live or die on what they do and how they are perceived as a result of what they do."⁷⁶

⁷¹ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p1), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Ysgol Fusnes Caerdydd, 22 Ionawr 2014

⁷² [Pwyllgor Materion Cymreig - Wythfed Adroddiad, Inward Investment in Wales](#), Chwefror 2012

⁷³ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p3), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan David Long a Geoff Harding, 22 Ionawr 2014

⁷⁴ Ibid

⁷⁵ Cofnod y Trafodion [para 155], 30 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

Strategaeth brand i Gymru

120. Awgrymodd nifer o dystion wrthym nad oedd unrhyw strategaeth brand gydlynus i Gymru o ran masnach na mewnfuddsoddi.

121. Dywedodd Alison Lea Wilson, Halen Môn, yr hoffai weld brand aml-lefel, “so that we are, first and foremost, Anglesey, then we are Welsh, and then we are British”.⁷⁷

122. Dywedodd Buster Grant, Brecon Brewing, wrthym fod angen rhagor o waith datblygu ar hunaniaeth brand i Gymru. Dywedodd David Long:

“I think there has been an issue with the Wales brand ever since it was decided to remove the WDA brand, because a decision was made that the brand would be Wales. It is quite difficult for a country to be a brand.”⁷⁸

123. Fodd bynnag, yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Roger Pride:

“I certainly believe that, ultimately, the brand is Wales. One of the things that I passionately believe in, in terms of the advice that we give to other places, is that it does not matter whether the aim of the communication is to encourage inward investment, to encourage tourism, or to promote a nation’s food: ultimately, it is the same place that is being talked about. So, there has to be some coherency in that messaging. Perhaps historically, not just in Wales but in almost every place, these individual propositions were developed completely in isolation, whereas, most intelligent destinations, including Wales now, at least have a common core in terms of the brand, style, tone and values, but then messages that are directed very clearly to each individual target audience.”⁷⁹

124. Gwnaethom holi hefyd sut roedd Cymru yn rhan o'r strategaeth brand roedd UKTI yn ei dilyn o ran marchnata'r DU yn gyffredinol dramor. Dywedodd Gareth John wrthym:

“The overall position of the UK is under the umbrella of what is known as the GREAT campaign, ... it promotes Great Britain and all constituent parts of it. We do not sub-brand UKTI. We do not sub-

⁷⁶ Cofnod y Trafodion [para 140], 30 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁷⁷ Cofnod y Trafodion [para 284], 22 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁷⁸ Cofnod y Trafodion [para 51], 6 Mawrth 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁷⁹ Cofnod y Trafodion [para 162], 30 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

brand any other part of the UK... So when a client receives a proposition it is very appropriately branded UK first and UKTI.”⁸⁰

125. Aeth yn ei flaen i ddweud:

“... the whole purpose of the GREAT campaign, is to get the investment into the UK first. We can then discuss with the client where the optimum location is going to be. So, inevitably, when you are promoting the UK, you have to pick certain jewels, if you like, that are going to have global resonance. Now, there is no reason why we should not be picking on Welsh assets as well, and that is very much something on which we have been working with the Welsh Government to give those assets a slightly higher profile within the UKTI marketing department.”⁸¹

Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei strategaeth brand ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi, a sut y mae'n gysylltiedig â'r brand ar gyfer yr economi, twristiaeth a'r wlad fel cyfanbeth.

Just Ask Wales

126. Ym mis Ionawr 2014, lansiodd Llywodraeth Cymru “*Just Ask Wales*”, ymgyrch a [gwefan](#) newydd wedi'u hanelu at ddenu mewnfuddsoddiad i Gymru, a oedd eisoes, yn ôl swyddogion Llywodraeth Cymru wedi arwain at "67 o ymholiadau gwirioneddol".

127. Dywedodd Roger Pride wrthym:

“...there is a lot of evidence to suggest, certainly within recent months, that there is now a coherent strategy. I think that the new campaign, for example, is to be welcomed. As I said, it is a bold and ambitious campaign. It is linked to a wider brand strategy for Wales in terms of delivery.”⁸²

128. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor “the *Just Ask Wales* campaign has been absolutely great this time with the number of people who have come in, the enquiries that have been made, and the inward investment that has come from it.”⁸³

129. Cododd David Long rai pryderon am yr ymgyrch, gan ddweud:

⁸⁰ Cofnod y Trafodion [para 287], 5 Chwefror 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁸¹ Cofnod y Trafodion [para 289], 5 Chwefror 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁸² Cofnod y Trafodion [para 177], 30 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁸³ Cofnod y Trafodion [para 400], 3 Ebrill 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

“If we look at the ‘Just Ask Wales’ campaign, the last campaign that I worked on before leaving was in January to March 2011, which targeted London and the south-east. It included advertisements at railway stations and on the sides of buses. When I read ‘Just Ask Wales’, I thought to myself that it had been rolled out again under a different name. It has to be a part of a bigger package. There are some huge organisations in London that act as middle men, whether they be trade associations or even the overseas offices of various countries. I do not know whether they are included in the campaign—that is not visible in the press release, which does not go into detail about what other activities are taking place behind the posters and the website.”⁸⁴

130. Fodd bynnag, dywedodd Roger Pride wrthym mai'r hyn y mae brand yn ei wneud sydd wrth wraidd ei llwyddiant, nid yr hyn y mae'n dweud ei fod yn ei wneud:

“From a Wales perspective, this new campaign puts that into sharp focus. It is great that it is happening, and, now, Wales has to deliver the promise.

“I would find it hard to believe that such a bold statement was made if plans had not been put in place to ensure that we delivered.”⁸⁵

131. Rydym yn cydnabod ei bod yn ddyddiau cynnar i'r ymgyrch *Just Ask Wales* a bod angen rhoi cyfle ac amser iddi lwyddo. Fodd bynnag, rydym wedi ei chael hi'n anodd canfod beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn wahanol er mwyn sicrhau llwyddiant yr ymgyrch hon o gymharu â mentrau blaenorol.

Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa weithgareddau neu ddulliau gweithredu newydd y mae'n eu defnyddio i gyflawni'r addewidion a wnaed gan ymgyrch *Just Ask Wales* a darparu diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion yr ymgyrch.

⁸⁴ Cofnod y Trafodion [para 287], 22 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁸⁵ Cofnod y Trafodion [para 220], 30 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

Monitro perfformiad, cyflwyno adroddiadau a thryloywder

132. Yn flaenorol, cyhoeddodd y WDA adroddiadau manwl iawn bob blwyddyn a bob chwe mis yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y cynnydd a wnaed erbyn canol y flwyddyn yn erbyn y targedau blynyddol unigol a bennwyd ar gyfer pob agwedd ar weithgarwch y WDA.

133. Ym mis Rhagfyr 2006, ar ôl uno'r WDA i fod yn rhan o Lywodraeth Cymru, cyhoeddodd yr Adran Fenter, Arloesedd a Rhwydweithiau newydd adroddiad perfformiad hanner blwyddyn, yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2006 i 30 Medi 2006. Roedd yr adroddiad yn crynhoi perfformiad yr Adran yn erbyn elfennau allweddol penodol i'w cyflawni fel y'u nodwyd yn ei Chynllun Busnes ar gyfer 2006-07. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu dogfen debyg, o ran cwmpas na manylder, ers hynny.

134. Roedd y diffyg gwybodaeth reolaidd, fanwl am gyllidebau, targedau ac allbynnau a chanlyniadau cysylltiedig gweithgareddau masnach a mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru yn fater a godwyd gan nifer o ymatebwyr.

135. Nododd Siambr Fasnach De Cymru "we have been unable to identify any hard data that is released to support current activities...we see no hard data on activities over last 2 years".⁸⁶

136. Roedd David Long a Geoff Harding o'r farn "there is little transparency in the current publication of performance activities".⁸⁷ Nodwyd ganddynt er bod Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn llunio 'Datganiad Blynyddol ar Gymorth i Fusnesau', nad oedd yn cynnwys "no performance information of note".⁸⁸

137. Awgrymodd Ysgol Fusnes Caerdydd y bu "paucity of analysis in Wales comparing the cost effectiveness of resources used in marketing and grants

⁸⁶ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p2), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Siambr Fasnach De Cymru, 22 Ionawr 2014

⁸⁷ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p3), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan David Long a Geoff Harding, 22 Ionawr 2014

⁸⁸ Ibid

to attract inward investment, with the funds employed to encourage indigenous SME development and entrepreneurship".⁸⁹

138. Nododd hefyd wrth i'r arian sydd ar gael i gefnogi datblygu rhanbarthol ddod yn gynyddol dynn o fewn cylchoedd gwariant cyhoeddus yn y dyfodol, "issues of comparative cost effectiveness will become more and more important".⁹⁰

139. Nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach "where we do have data, they are not necessarily analysed in any great depth and set into Government documents".⁹¹

Strategaeth economaidd

140. Awgrymwyd hefyd fod angen mwy o eglurder o ran strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru a sut y gellid ei defnyddio i hybu buddsoddiad.

141. Dywedodd Ed Payne, Pennaeth Strategaeth Scottish Development International, wrthym ei fod yn credu bod gan yr Alban Strategaeth Masnach a Buddsoddi Rhyngwladol glir sy'n nodi'r cyfleoedd a'r blaenoriaethau ar gyfer cynyddu ei pherfformiad masnach a buddsoddi:

"In the last five years, we have seen the importance of trade and investment go up, in terms of the economic agenda and the political agenda. Primarily, before the financial crisis, demand was very much driven by domestic consumption and the public sector, but that has changed, in that both of those have been retrenching and the drive for demand is exports. Therefore, it is a key part of the Government's economic strategy. It has set a key target around that, in terms of increasing exports. Trade and investment is not a goal in itself; it is about economic growth and prosperity. It is about delivering economic growth for the country. So, it is very much nested in that economic agenda and in delivering economic growth."⁹²

142. Fodd bynnag, nid yw'r darlun yng Nghymru mor eglur. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Iestyn Davies:

⁸⁹ Papur y Pwyllgor Menter a Busnes EBC(4)-02-14(p1), *Ymchwiliad i agwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi*, Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Ysgol Fusnes Caerdydd, 22 Ionawr 2014

⁹⁰ Ibid

⁹¹ Cofnod y Trafodion [para 60], 30 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

⁹² Cofnod y Trafodion [para 23], 5 Chwefror 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

“Certainly, the challenge that we see is that we are not aware whether there is a strategy. If there is a strategy in place, we remain to be convinced that it is something that we should support and promote to our members. Even when we ask questions about where that strategy is - because I do not think that there is one, or not one that is publicly available, at least.”⁹³

Dylai Llywodraeth Cymru nodi, fel rhan o strategaeth datblygu economaidd glir, ei dyheadau ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi; gan gynnwys y marchnadoedd a'r sectorau rhyngwladol sydd o bwysigrwydd strategol i Gymru, yn ei barn; sut y bydd yn helpu busnesau yng Nghymru i fanteisio ar y cyfleoedd yn y marchnadoedd hynny; a sut y bydd yn gweithio gyda buddsoddwyr presennol o dramor a darpar fuddsoddwyr o dramor i gynnal busnes yng Nghymru ac yn eu helpu i wneud hynny.

⁹³ Cofnod y Trafodion [para 18], 30 Ionawr 2014, Y Pwyllgor Menter a Busnes

Atodiad A – Cylch gorchwyl

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn oedd:

- Pa mor effeithiol yw dull Llywodraeth Cymru o hybu masnach a mewnfuddsoddi?
- I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid o fewn Llywodraeth y DU (UK Trade and Investment ac UK Export Finance)?

Ymhlith y materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor fel rhan o'r cylch gorchwyl hwn roedd y canlynol:

Materion Allweddol

1. Faint o adnoddau a chyllid Llywodraeth Cymru a dargedir at hybu masnach a mewnfuddsoddi? A yw'n ddigon? A yw'n darparu gwerth am arian?
2. Sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei gweithgareddau masnach a mewnfuddsoddi?
3. A yw dull gweithredu mewnol presennol Llywodraeth Cymru o annog masnach a mewnfuddsoddi yn well na dulliau'r sefydliadau a fodolai yn flaenorol i gyflawni'r un swyddogaethau? (h.y. Awdurdod Datblygu Cymru, Masnach Cymru Rhyngwladol, ac yn fwyaf diweddar, Busnes Rhyngwladol Cymru)
4. Pa mor effeithiol yw dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu buddsoddwyr? (h.y. annog mewnfuddsoddwyr presennol i ailfuddsoddi)
5. Beth yw'r prif rwystrau y mae darpar allforwyr yn eu hwynebu? Pa mor effeithiol yw'r cymorth a gynigir gan Lywodraeth Cymru (a Llywodraeth y DU) wrth leihau'r rhwystrau hyn (e.e. cenadaethau masnach, cymorth ariannol i allforio)?
6. Pa mor gryf yw 'arlwy' mewnfuddsoddi Cymru?
7. I ba raddau y mae gan Gymru frand cydlynus ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi?

Atodiad B – Tystion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn: www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=8492

22 Ionawr 2014

Yr Athro Max Monday	Prifysgol Caerdydd
Graham Morgan	Siambwr Fasnach De Cymru
Geoff Harding	Arbenigwr mewn Cymorth Masnach Rhyngwladol
David Long	

30 Ionawr 2014

Iestyn Davies	Ffederasiwn Busnesau Bach
Joshua Mile	
Roger Pride	Heavenly

5 Chwefror 2014

Ed Payne	Scottish Development International
Guy Warrington	UK Trade and Investment (UKTI)
Gareth John	

19 Chwefror 2014

Yr Athro Gareth Morgan	Cadeirydd Panel y Sector Gwyddorau Bywyd
Yr Athro David Williams	Cadeirydd Panel y Sector Ynni a'r Amgylchedd

3 Ebrill 2014

Carwyn Jones AC	Y Prif Weinidog
Edwina Hart AC	Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
James Price	Cyfarwyddwr Cyffredinol, Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Gary Davies	Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol

Atodiad C – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Sefydliad

Ffederasiwn Busnesau Bach

Justin Brodie-Smith

Uned Ymchwil i Economi Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol
Caerdydd,

Siambr Fasnach De Cymru a Siambr Fasnach Canolbarth Cymru

David Long a Geoff Harding

Robert Lock

UK Trade and Investment (UKTI)

Y Sefydliad Marchnata Siartredig

Cymdeithas Allforwyr Prydain

Scottish Development International

Capital Wales

Dr John Ball

Ernst & Young